Rhif: WG43013

Canllawiau

# Dogfennau Cludo

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80195-579-9

# Pryd mae angen dogfennau cludo?

Yn y ddogfen hon, mae ‘pysgod’ neu ‘cynhyrchion pysgodfeydd’ yn cynnwys pysgod môr a physgod cregyn.

Os ydych yn cludo pysgod neu bysgod cregyn a laniwyd i mewn i’r DU i ffwrdd o ardal y porthladd lle y cafodd eu glanio, rhaid bod ganddynt ddogfen gludo hyd nes bod y gwerthiant cyntaf wedi’i wneud.

Yr eithriadau i’r gofyniad hwn yw:

• bod copi o'r datganiad glanio neu'r ddogfen gyfatebol yn mynd gyda'r pysgod
• bod dogfen gludo electronig wedi'i chyflwyno
• bod datganiad cymryd drosodd wedi'i gyflwyno
• bod cofnod dal ar gyfer cychod o dan 10 metr wedi'i gyflwyno ac yna byddwch yn cludo eich dalfa eich hun

# 2. Gwybodaeth i’w chynnwys yn y ddogfen gludo

Rhaid i ddogfen gludo gynnwys yr wybodaeth isod:

- i ble mae’r llwyth(i) yn mynd a rhif adnabod y cerbyd cludo;
- y rhif adnabod allanol (PLN) ac enw’r cwch neu gychod pysgota sydd wedi glanio’r pysgod;
- cod FAO alpha-3 pob rhywogaeth a'r ardal ddaearyddol berthnasol lle cymerwyd y dalfeydd;
- nifer y rhywogaethau a gludir mewn cilogramau pwysau cynnyrch, wedi'u dadansoddi yn ôl math o gynnyrch a gyflwynir neu, lle y bo'n briodol, nifer y rhai unigol.
- enw(au) a chyfeiriad(au) y sawl sy’n derbyn (Cyrchfan)
- man a dyddiad llwytho
- nifer (lle bo'n briodol) mewn cilogramau a fynegir mewn pwysau net, neu nifer y pysgod unigol, islaw'r maint cyfeirio cadwraethol lleiaf perthnasol.

Os yw'r pysgod yn cael eu pwyso cyn eu cludo yna mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r ffigur hwn i gwblhau'r ddogfen. Os bwriedir cludo’r pysgod cyn eu pwyso yna gallwch ddefnyddio ffigur amcangyfrifedig. Y lwfans goddefiant a ganiateir ar gyfer hyn yw 10% ar gyfer pob rhywogaeth. Os ydych yn defnyddio'r ffigur amcangyfrifedig a gofnodwyd yn llyfr log y cwch, gellir cofnodi’r pwysau hwnnw mewn pwysau byw ond rhaid i chi nodi pwysau’r cynnyrch yn y ddogfen gludo.

Fel y cludwr, chi sy’n gyfrifol am gywirdeb y ddogfen gludo.
Templed dogfen gludo a awgrymir ar gyfer cario pysgod o un cwch
Templed dogfen gludo a awgrymir ar gyfer cario pysgod o sawl cwch

Os ydych yn cludo pysgod heb eu pwyso efallai y bydd gofyn i chi nodi gwybodaeth ychwanegol ar y ddogfen gludo yn unol â chynllun samplu'r DU.

# 3. Gofynion cyflwyno ar gyfer dogfennau cludo

## 3.1 Ar gyfer pysgod sy’n symud o fewn y DU

Gellir cyflwyno dogfen gludo sy'n cynnwys yr holl wybodaeth yn Adran 2 i Lywodraeth Cymru ar ôl i'r pysgod gael eu cludo neu'n electronig cyn eu cludo. Os byddwch yn dewis peidio â chyflwyno'r ddogfen gludo, gallwch ei chadw at eich dibenion eich hun.

## 3.2 Ar gyfer pysgod sy’n symud y tu allan i’r DU

Os ydych yn cludo pysgod o'r DU, rhaid i chi gyflwyno dogfen gludo i Lywodraeth Cymru drwy un o'r dulliau a esbonnir yn Adran 4. Rhaid i chi hefyd anfon copi o'r ddogfen gludo o fewn 48 awr i'w llwytho i'r awdurdodau perthnasol yn y wlad lle mae'r gwerthiant cyntaf yn digwydd.

Os yw'r pysgod yn cael eu cludo allan o'r DU yna rhaid pwyso'r pysgod yn llawn a nodi'r pwysau hwn yn y ddogfen gludo.

### Selio’r llwyth

Fel meistr (neu ei gynrychiolydd awdurdodedig) y cwch pysgota sydd wedi glanio'r ddalfa, rhaid i chi selio'r llwyth sy'n cael ei gludo yn y man glanio cyn ei symud.

Rhaid i chi gofnodi manylion yr holl lwythi sydd wedi'u selio ar y ddogfen gludo.

Dim ond os mai chi yw'r gweithredwr cofrestredig yn y gyrchfan sy'n derbyn y pysgod, swyddog aelod-wladwriaeth neu Arolygydd Undeb y cewch agor y llwythi sydd wedi'u selio.

## 3.4 Llwythi hollt

Gallwch gludo pysgod i fwy nag un gyrchfan (o fewn neu y tu allan i'r DU) yn unol â'r darpariaethau isod.

### Cyn cludo

Os ydych yn bwriadu cludo'r pysgod i wahanol leoliadau, rhaid i chi gwblhau dogfen gludo ar wahân ar gyfer pob cyrchfan cyn gadael.

Ni allwch gludo pysgod y tu allan i'r DU cyn pwyso’r pysgod.

Rhaid i chi sicrhau bod modd adnabod y cwch a laniodd y ddalfa a chyrchfan pob llwyth a gludir.

### Cludo llwythi o fewn y DU

Os bydd yn ofynnol i chi, ar ôl gadael, gludo pysgod i fwy nag un lleoliad, rhaid i chi gwblhau dogfennau cludo ar wahân cyn hollti'r llwyth a chofnodi'r newid yn y gyrchfan.

Ar gyfer llwythi y bwriedir eu cludo y tu allan i'r DU, rhaid i chi roi gwybod ar unwaith i awdurdodau'r DU am yr amser a'r lle y mae'r llwyth i fod i gael ei hollti. Gall yr awdurdodau:

- eich cyfarwyddo i beidio â thorri'r seliau cludo nes bod arolygydd yn bresennol;
- cytuno ar amser a man lle gellir gweld y ddalfa yn cael ei hollti neu ei phwyso.

### Cyrraedd cyrchfan y tu allan i'r DU

Os ydych yn bwriadu hollti'r llwyth wrth gyrraedd y gyrchfan wreiddiol yna rhaid pwyso'r holl bysgod cyn i unrhyw ran o'r ddalfa barhau â'i thaith.

Rhaid i chi lenwi dogfen gludo newydd i gynnwys y llwyth sy'n adlewyrchu'r gyrchfan derfynol.

Rhaid i chi roi gwybod i'r awdurdodau am yr amser a'r man lle mae'r llwyth i fod i gael ei hollti. Gall yr awdurdodau:

- eich cyfarwyddo i beidio â thorri'r seliau cludo nes bod arolygydd yn bresennol;
- cytuno ar amser a man lle gellir gweld y ddalfa yn cael ei hollti neu ei phwyso

# 4. Cyflwyno dogfennau cludo

Pan fo angen cyflwyno dogfen gludo, rhaid ei chyflwyno i'r awdurdod cymwys (e.e. Llywodraeth Cymru, Y Sefydliad Rheoli Morol neu Marine Scotland) o fewn 48 awr o'r adeg y caiff y pysgod eu llwytho neu'n electronig cyn eu cludo.

## 4.1 Cyflwyno dogfennau ar ôl cludo

Cewch gyflwyno:

- drwy'r post neu drwy law i swyddfa agosaf awdurdod cymwys y porthladd glanio
- yn uniongyrchol i swyddog gorfodi morol
- drwy ei roi mewn blwch post porthladd dynodedig
- anfon copi wedi'i sganio neu ffotograff drwy e-bost at milfordhavenfisheriesoffice@llyw.cymru

## 4.2 Cyflwyno'n electronig cyn cludo

Cewch gyflwyno'r ddogfen gludo yn electronig i'r awdurdod cymwys cyn i'r llwyth gael ei symud. Gall hwn fod yn gopi wedi'i sganio neu'n ffotograff o'r ddogfen neu'n ffurflen electronig wedi'i chwblhau drwy e-bost.

Os yw'r cyfleuster ar gael, gallwch ganiatáu i feistr y cwch gyflwyno dogfen gludo gan ddefnyddio ei system llyfr log electronig: fodd bynnag, chi sy'n dal i fod yn gyfrifol am gywirdeb y data.

# 5. Pysgod ail werthiant

Os ydych yn cludo pysgod sydd eisoes wedi'u gwerthu ('ail werthiant') i ffwrdd o'r man glanio, neu lle gwerthwyd y pysgod am y tro cyntaf, rhaid i chi allu profi gyda dogfen, megis nodyn gwerthu, fod trafodiad gwerthu wedi digwydd. Rhaid i chi hefyd allu bodloni eich rhwymedigaethau o dan y gofynion olrhain.

# 6. Y Rhwymedigaeth Glanio (‘Gwaharddiad ar waredu pysgod’)

Mae pysgod sydd wedi'u glanio er mwyn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth glanio yn ddarostyngedig i'r rheoliadau a amlinellir uchod o ran cwblhau dogfennau cludo.

Gallwch gludo pysgod sy'n rhy fach nad ydynt wedi eu trefnu yn ôl rhywogaeth, ar yr amod eu bod wedi'u gwahanu oddi wrth bysgod uwchben y maint cyfeirio cadwraethol lleiaf perthnasol ac y cydymffurfir â’r rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid hefyd.